



Llywydd: Mr Anthony Tavernor.

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA

Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â diogelu data wedi newid. Ers 25 Mai 2018, effeithiodd y newid hwn ar bob sefydliad yn y DU, yn cynnwys busnesau, elusennau (megis cymdeithasau dinesig), a chlybiau lleol. O'r dyddiad hwn, daeth rheoliad UE newydd o'r enw y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) i rym. Bydd y DU yn parhau i weithredu'r rheoliad hwn wedi i'r DU adael yr UE.

Fel elusen, sy'n cael ei chydabod gan CThEM, bydd gofyniad cyfreithiol ar y Gymdeithas i adolygu a mireinio sut mae'n casglu, dal, prosesu a defnyddio'r data mae'n ei dal am ei haelodau..

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut rydym yn defnyddio ac yn gwarchod yr wybodaeth sydd gennym.

1. Eich data personol – beth yw hwn?

Mae data personol yn perthyn i unigolyn byw y gellir ei adnabod o'r data hwnnw. Gallai'r adnabod ddigwydd drwy'r wybodaeth ar ei phen ei hun ochr yn ochr ag unrhyw ddata arall ym meddiant rheolydd y data neu sy'n debygol o ddod i'w meddiant. Caiff prosesu data personol ei lywodraethu gan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

2. Pwy ydym ni?

Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy (y Gymdeithas) yw'r rheolydd data (manylion cyswllt isod). Mae hyn yn golygu fod y Gymdeithas yn penderfynu sut mae'ch data personol yn cael ei brosesu ac at ba ddibenion.

3. Sut ydym ni'n prosesu'ch data personol?

Mae'r Gymdeithas yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan y "GDPR" drwy gadw data personol wedi'i ddiweddarau; drwy ei storio a'i ddinistrio'n ddiogel; drwy beidio â chasglu neu gadw symiau gormodol o ddata; drwy warchod data personol rhag cael ei golli, ei gamddefnyddio, ei gyrchu heb awdurdod a'i ddatgelu a thrwy sicrhau fod mesurau technegol priodol yn eu lle i ddiogelu data personol.

Rydym yn defnyddio'ch data personol at y dibenion canlynol: -

- Gweinyddu cofnodion aelodaeth;
- Codi arian a hyrwyddo buddiannau'r elusen;
- Rheoli cynigion gwirfoddolwyr i helpu;
- Cynnal ein cyfrifon a'n cofnodion ein hunain (yn cynnwys prosesu ceisiadau rhodd cymorth);
- Eich hysbysu am newyddion, digwyddiadau, gweithgareddau a gwasanaethau lleol

4. Beth yw'r sail gyfreithiol i brosesu'ch data personol?

- Caniatâd penodol gwrthrych y data fel ein bod yn gallu rhoi gwybod i chi am newyddion, digwyddiadau, gweithgareddau a gwasanaethau a'ch hysbysu am ddigwyddiadau newydd.
- Mae prosesu yn angenrheidiol i gyflawni'n rhwymedigaethau cyfreithiol o safbwynt Rhodd Cymorth
 - Swyddogion etholedig y Gymdeithas sy'n gwneud y prosesu; mae'r prosesu'n ymdrin ag aelodau neu gyn aelodau yn unig (neu'r rheiny sydd â chyswllt rheolaidd â'r gymdeithas mewn cysylltiad â'r dibenion hynny); ac
 - Ni ddatgelir y data i drydydd parti heb ganiatâd.

5. Rhannu'ch data personol.

Bydd eich data personol yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei rannu ag aelodau eraill o'r Gymdeithas.

6. Pa mor hir ydym ni'n cadw'ch data personol?

Rydym yn cadw data yn unol â gofynion datganiadau rhodd cymorth a'r gwaith papur cysylltiedig am hyd at 6 mlynedd ar ôl y flwyddyn galendr y maent yn ymdrin â nhw; a chofrestrau aelodau am ddwy flynedd.

7. Eich hawliau a'ch data personol

Oni bai bod gennych esemptiad o dan y GDPR, mae'r hawliau canlynol yn weithredol o safbwynt eich data personol: -

- Yr hawl i ofyn am gopi o'ch data personol y mae'r Gymdeithas yn ei ddal amdanoch chi;
- Yr hawl i ofyn i'r Gymdeithas gywiro unrhyw ddata personol os canfyddir ei fod yn anghywir neu wedi dyddio;
- Yr hawl i ofyn am i'ch data personol gael ei ddileu pan nad oes angen mwyach i'r Gymdeithas gadw data o'r fath;
- Yr hawl i dynnu'ch caniatâd i'r prosesu yn ôl ar unrhyw adeg
- Yr hawl i ofyn i reolydd y data roi ei ddata personol ef/hi i wrthrych y data
- Yr hawl, pan fo anghydfod ynghylch cywirdeb neu brosesu'ch data personol, i ofyn am i gyfyngiad gael ei roi ar brosesu pellach;
- Yr hawl i wrthwynebu prosesu data personol. (Ile'n briodol)) [*Dim ond yn weithredol lle mae prosesu yn seiliedig ar fuddiannau dilys (neu gyflawni tasg er budd y cyhoedd/arfer awdurdod swyddogol); marchnata uniongyrchol a phrosesu at ddibenion ymchwil ac ystadegau gwyddonol/hanesyddol*]
- Yr hawl i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

8. Prosesu pellach

Os ydym yn dymuno defnyddio'ch data personol at ddiben newydd, nad yw'n cael ei drin gan yr Hysbysiad Diogelu Data hwn, yna byddwn yn rhoi hysbysiad newydd i chi yn esbonio'r defnydd newydd hwn cyn dechrau'r prosesau ac yn gosod allan y dibenion perthnasol a'r amodau prosesu. Lle a phryd bynnag y bo angen, byddwn yn gofyn am eich caniatâd ymlaen llaw i'r prosesu newydd.

9. Manylion Cyswllt

I arfer pob hawl berthnasol, i wneud ymholiadau neu gwynion, cysylltwch yn y lle cyntaf â'r Trysorydd, Mrs R Hufton, Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy, Glan Menai, Lôn Cei Bont, Porthaethwy, LL59 5H neu unrhyw Aelod o'r Pwyllgor.

Gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, 2il Lawr, Ty Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH

Ffôn: 029 2067 8400

Ffacs: 029 2067 8399

Ebost: wales@ico.org.uk